# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 18 Mawrth 2003 i'w hateb ar 1 Ebrill 2003

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**1. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad am y sefyllfa bresennol mewn perthynas â'r effaith a gaiff yr hyn sy'n digwydd yn Irac o safbwynt cyflawni polisïau'r Cynulliad. (OAQ23799)

**2. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad am unrhyw gynlluniau i adolygu targedau mewn unrhyw ddogfennau strategol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. (OAQ23790)

**3. Val Lloyd (Dwyrain Abertawe);** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru. (OAQ23788)

**4. Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ynghylch recriwtio a chadw athrawon yng Nghymru ac ynghylch sut y mae hyn yn cymharu â'r sefyllfa yn Lloegr. (OAQ23794)

**5. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad am drafodaethau rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Trysorlys am y gyllideb nesaf. (OAQ23797)

**6. Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch a oes mannau chwarae ar gael i bob plentyn ar Ynys Môn. (OAQ23801)

**7. Alison Halford (Delyn);** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cynnal gyda Llywodraeth y DU ynghylch ymddygiad cynghorwyr sir Caerdydd. (OAQ23796)

**8. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad am y rhestrau aros a'r amserau aros yn y GIG yng Nghymru ar hyn o bryd. (OAQ23798)

**9. Brian Hancock (Islwyn);** Pa gamau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cymryd i hyrwyddo

safleoedd hen weithfeydd glo fel safleoedd adfywio economaidd. (OAQ23803)

**10. Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ynghylch pa mor barod yw'r gwasanaethau brys yng Nghymru i ddelio ag effeithiau posibl ymosodiad gan frawychwyr. (OAQ23789)

**11. Dafydd Wigley (Caernarfon);** Bet yw asesiad y Prif Weinidog o'r sgil-effeithiau ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a fydd yn deillio o'r argyfwng gydag Irac. (OAQ23800)
**W**

**12. David Melding (Canol De Cymru);** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad am recriwtio a chadw staff yn y GIG yng Nghymru. (OAQ23793)

**13. Helen Mary Jones (Llanelli);** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad am roi'r targedau a amlinellir yn y Cytundeb Partneriaeth ar waith. (OAQ23804)

**14. Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Sut y bydd Prif Weinidog Cymru yn cyflwyno barn pobl Cymru am yr ymosodiad milwrol ar Irac i'w gydweithwyr yn San Steffan. (OAQ23792)

**15. Brian Gibbons (Aberafan);** Pa gamau sy'n cael eu cymryd ar y lefel ranbarthol i hyrwyddo delwedd Cymru dramor. (OAQ23795)